

MORGAN (TEULU), Llantarnam, sir Fynwy

Cychwynna pwysigrwydd y teulu hwn (cangen o deulu Morganiaid Pencoyd, yn hawlio eu bod yn disgyn o Cadifor Fawr), pan brynwyd abaty diddymedig Llantarnam yn 1561 gan WILLIAM MORGAN (bu farw 1582), Grange Cefn Vynoch; gyda'r abaty yr oedd y maenorau perthynol iddo - Wentwood a Bryngwyn. Gan [William, iarll Pembroke](#) (bu farw 1570), y'u prynwyd; cawsai ef hwynt gan y frenhines Elisabeth yn 1559. Adeiladwyd plasty newydd gyda meinï'r abaty eithr ymddengys i Morgan gadw hen greigell Penrhys fel man pererindod, a defnyddiwyd ei dy ef i gynnal gwasanaeth yr offeren; er gwaethaf hyn i gyd daeth ef yn siryf ei sir yn 1568 a chynrychiolodd hi nid yn unig yn seneddau 1555 a 1557 yn ystod teyrnasiad Mari ond hefyd yn seneddau Elisabeth yn 1559 a 1571.

Dilwynwyd ef yn y Senedd, yn 1584 a 1586, gan ei fab EDWARD MORGAN (bu farw 1633), a fu hefyd yn siryf yn 1582; priododd Florentia, ei ferch ef, [Syr William Herbert](#), St. Julians.

Trwy briodas ei aer ef, THOMAS MORGAN, à Frances, ferch [Edward Somerset, 4ydd iarll Worcester](#), daethpwyd â'r teulu yn nes i mewn i wersyll y Pabyddion milwriaethus; er yr ymddengys i Frances gael ei dwyn i fyny yn Protestant, yr oedd hi wedi ei 'chymodi' â Rhufain trwy offerynoliaeth [y Tad Robert Jones](#), ac yr oedd yn hael yn ei chymorth i genhadaeth Gymreig Cymdeithas lesu; yr oedd dylanwad ei thad ar y Cyfrin Gyngor yn ei gwneuthur yn bosibl iddo fynd a dyfod yn fwya'r rhydd nag a ganiateid i Babyddion, ac felly yr oedd yn medru gwasanaethu fel delon gydiol rhwng cynulliadau gwasgaredig o Babyddion megis y rheini yn Sir y Fflint. Trwy dalu dirwy o £100, caffodd faddeuant am wrthod y llw o deyrngarwch yn 1612.

Mab Thomas Morgan, sef Syr EDWARD MORGAN, a gawsai ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (ymaelododd fis Mai 1616, B.A. Gorffennaf 1619), a fu'n abl i sefydlu canolfan adran Gymreig Cymdeithas lesu yn y Cwm, Swydd Henffordd, yn 1635. Yn yr ail 'Bishops' War' (1640) gwnaethpwyd Edward yn swyddog yn y fyddin a chaniatâd iddo godi cymorth gan ei gyd-grefyddwyr - a pharod y gweithrediau hyn ddadlau brwd yn y Senedd Faith, eithr ateb Charles oedd ei wneuthur yn farwning (12 Mai 1642). Ymladdodd dros y brenin yn y Rhŷfyl Cartrefol, a chymherwyd ef yn garcharor yn Henffordd, 18 Rhagfyr 1645. Gwrthododd 'Senedd y Rump' gydnabod y teitl (17 Chwefor 1652), ac oherwydd fod Morgan yn frenhinwr cymerwyd meddiant o'i stad, a oedd yn werth £911 y flwyddyn, ac nis rhyddhawyd (ar 9 Tachwedd 1654) hyd ar ôl i farw ef (ar 24 Mehefin 1653). Priododd ei chwaer ef, Winifred, à [Percy Enderbie](#), awdur *Cambrilia Triumphans*.

Daeth ei aer, Syr EDWARD MORGAN, yr ail farwning, yn Protestant, ac felly daeth yn bosibl i'r teulu aili gymryd rhan mewn materion seneddol; yr oedd y 3ydd barwnig, yntau hefyd yn Syr EDWARD MORGAN (bu farw 1681), yn cynrychioli'r sir yn 1680-1.

Pan fu ef farw, heb etifedd gwryw, aeth y stad o feddiant y teulu ac fe'i dilwynwyd ef fel barwnig gan fab iau y barwnig 1af, Syr JAMES MORGAN; glynodd ef wrth hen grefydd y teulu, serch bod ei wraig yn Protestant, a pharhaodd yn 'non-juror' ar ôl chwyldroad 1688. Pan fu ef farw (cyn 1727) daeth y teitl i'w derfyn.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

- Bradney, *A History of Monmouthshire*, i, 464-7
G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (1886), 322-3
George Edward Cokayne, *Complete Baronetage* (1611-1800) (Exeter 1900-09), ii, 171
Calendar of State Papers, Domestic Series, Jas. I, 137
Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc., 1643-1660, i, 132, 467, 511; iii, 2310-2
Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus* (1570-1800), iv, 334
D. Mathew, *The Celtic Peoples and Renaissance Europe. A study of the Celtic and Spanish influences on Elizabethan history* (1933), 492-3
Rushworth, *Historical Collections of Private Passages of State* (1721), iii, 163, 394
British Museum Lansdowne Manuscript 153, folios 79, 85
Thomas Morgan, *Several Letters from Colonell Morgan & Colonell Birch, fully relating the manner of the taking of Hereford & With a perfect list of the names of the prisoners, etc* (London 24 December 1645) ... 5
Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodonion, 1947-8, 71
Catholic Record Society, xxii, 95
W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 121, 127

Darllen Pellach

- G. Blacker Morgan, *Collections towards historical and genealogical memoirs of the Morgan family as represented in the Peerage of England by the Right Hon. the Lord Tredegar* (London 1890)
G. Blacker Morgan, *Historical and Genealogical Memoirs of the Morgan Family as Represented in the Peerage of England by the Right Hon. the Baron Tredegar* (London 1891) (3 cyfrol)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733931](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA

x

Dodd, A. H., (1953). MORGAN (TEULU), Llantarnam, sir Fynwy. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-LLA-1561>

Copio i'r
clipwrdd

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodleian
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government